


# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Canllawiau Asesiad Risg Ymweliadau Addysg

# Trefniadau cyn eich ymweliad

### Gwybodaeth gyffredinol

Lleolir Canolfan Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar lawr daear Tŷ Hywel. Mae'r ganolfan yn cynnwys siambr drafod fawr ar gyfer pobl ifanc (Siambr Hywel) ac ystafell ddosbarth fawr gyfagos. Bydd yr ymweliad yn dechrau gyda dadl yn Siambr Hywel cyn symud ymlaen i'r ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgarwch perthnasol. Yna, cynhelir taith dywysedig o amgylch y Senedd.

Bydd Swyddog Addysg yn goruchwylio'r ymweliad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a bydd yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen arnoch.

Mae'n hanfodol eich bod yn caniatáu digon o amser ar ôl cyrraedd i fynd drwy'r gweithdrefnau diogelwch cyn yr amser y byddwch yn cychwyn yn Siambr Hywel. Gan fod nifer fawr o grwpiau yn cymryd rhan yn ein Rhaglen Addysg, caiff eich ymweliad ei dorri'n fyr os byddwch yn hwyr yn cyrraedd.

### Asesiad Risg

Mae'r Cynulliad wedi cynnal Asesiad Risg cyffredinol ar gyfer cyfnodau pan fydd ysgolion yn ymweld â safle'r Cynulliad, a hynny o dan arweiniad y Swyddog Addysg. Mae'r asesiad hwnnw (Ffurflen Asesu Risg Cyffredinol) yn rhan o'r pecyn hwn. Dylai Arweinwyr y Grwpiau ddarllen yr asesiad hwn yn fanwl, gan sicrhau eu bod yn deall yr asesiad a'r hyn sy'n ofynnol ganddynt hwy, aelodau eraill o staff sy'n rhan o'r ymweliadau, a'r grŵp. Rhaid rhoi gwybod i bob parti berthnasol ynghylch manylion yr asesiad risg. Os bydd ysgolion sy'n ymweld yn ymwybodol o unrhyw beryglon ychwanegol sydd heb gael sylw yn yr asesiad cyffredinol, dylent ychwanegu at yr asesiad neu ei addasu er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau wedi'u lleihau i'r lefel isaf sy'n rhesymol ymarferol.

At hynny, rhaid i bob grŵp sy'n ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru gynnal ei hasesiad risg ei **hun** cyn yr ymweliad, gan ymateb i'r risgiau na chaiff sylw yn yr asesiad cyffredinol, fel risgiau'n ymwneud â theithio o'r bws i adeiladau'r Cynulliad ac ati.

Mae croeso i Arweinwyr Grwpiau ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ymlaen llaw er mwyn ymgyfarwyddo â'r adeilad a chael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynnal eu hasesiad risg ychwanegol eu hunain. I gael rhagor o wybodaeth am ymweliad ymlaen llaw, cysylltwch â'r Tîm Addysg ar **0845 010 5500** neu anfonwch e-bost i **addysg@cymru.gov.uk.**

I gael cyngor ac arweiniad ar sut i drefnu a rheoli ymweliadau oddi ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n cymryd rhan, darllenwch yr arweiniad **"Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Addysgol" (Medi 1999.** Sydd i'w weld ar **http://www.teachernet.gov.uk.**

## Goruchwyliaeth a maint y grŵp

Ni chaniateir mwy na 48 o ddisgyblion mewn grŵp gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael eu goruchwylio'n ddigonol yn ystod eu hymweliad â'r Cynulliad. Yn ôl cyfraith iechyd a diogelwch, ystyrir bod y staff (athrawon) yn "gweithio" wrth oruchwylio plant ar ymweliad addysgol. Cyfrifoldeb Arweinydd y Grŵp sy'n ymweld yw sicrhau bod lefel briodol o oruchwyliaeth ar bob adeg. Dylai'r oruchwyliaeth honno gydymffurfio â gofynion unrhyw Awdurdod Addysg Lleol a'r canllawiau ym mhennod 3 "Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Addysgol".

Ni ddylai'r staff sy'n goruchwylio adael eu grŵp heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg.

## Gwybodaeth i ddisgyblion

Cyn yr ymweliad, dylid rhoi gwybod i'r disgyblion a'r staff sy'n ymweld am fanylion yr asesiad risg cyffredinol, yn ogystal â manylion eich asesiad risg eich hun. Fan lleiaf, dylai'r disgyblion ddeall y pwyntiau a ganlyn:


– Diben yr ymweliad a'r amcanion
– Y peryglon a nodwyd ac unrhyw ragofalon a drefnwyd
– Safon yr ymddygiad a ddisgwylir
  Pa mor bwysig yw dilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan
– Arweinydd y Grŵp a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Pwy sy'n gyfrifol am y grŵp
– Beth i'w wneud os bydd rhywun o'r tu allan i'r grŵp yn dod atynt
– Beth i'w wneud os cânt eu gwahanu oddi wrth y grŵp.

## Ffotograffau

Rhaid i ni gael caniatâd rhieni cyn tynnu lluniau o'r plant. A fyddech cystal â chadarnhau ar ein Ffurflen Caniatad ar gyfer Tynnu Lluniau bod rhieni'r holl blant sydd ar yr ymweliad yn ymwybodol o hyn a'ch bod wedi cael eu caniatâd cyn yr ymweliad.

Fel rhan o'r ymweliad, efallai y byddwn yn tynnu lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Efallai y byddwn yn defnyddio'r delweddau mewn cyhoeddiadau a gaiff eu hargraffu neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru a/neu Aelodau'r Cynulliad neu ar fideo neu ar gyfuniad o'r cyfryngau hyn. Os caiff y delweddau hyn eu cyhoeddi, ni fyddwn yn cyfeirio at y disgyblion wrth eu henwau.






Man Parcio Bysiau Man gollwng I bobl anabl Man Gollwng Teithwyr

## Parcio a mannau i fysiau ollwng teithwyr

Mae'r map o Fae Caerdydd yn dangos y mannau lle y gall bysiau ollwng teithwyr a pharcio. Fodd bynnag, gall bysiau sy'n cludo plant ifanc iawn a phobl sy'n cael trafferth symud ddefnyddio man penodol ar gyfer gollwng teithwyr, os trefnir hynny o flaen llaw drwy ddarparu rhif cofrestru'r cerbyd.

Dylai eich asesiad risg gynnwys yr angen i symud eich grŵp oddi wrth eich cludiant i Dŷ Hywel a dylech sicrhau y defnyddir mesurau rheoli addas.

## Gofynion mynediad

Mae'n bwysig bod y tîm archebu yn cael gwybod am unrhyw ofynion mynediad neu anghenion arbennig pan fyddwch yn trefnu'r ymweliad.

## Eiddo Personol

Bydd angen i bob eiddo personol fynd drwy'r sganiwr pelydr-x ar ôl cyrraedd. Rhaid i'r disgyblion sicrhau nad oes unrhyw ddeunyddiau miniog (ee siswrn, cyllyll ffrwythau) yn eu heiddo personol. Bydd y Swyddogion Diogelwch yn cadw'r deunyddiau hynny dros gyfnod yr ymweliad. Bydd unrhyw amser a gaiff ei dreulio yn ymdrin â'r broses hon o gymryd a dychwelyd deunyddiau, yn golygu y bydd llai o amser ar gael ar gyfer yr ymweliad.

Ni ddarperir cyfleusterau i gadw eiddo'r disgyblion, felly dylech eu cynghori i ddod â chyn lleied â phosibl o eiddo personol gyda hwy. Y disgyblion sy'n gyfrifol am eu heiddo personol yn ystod yr ymweliad.

## Cyrraedd

**Cyrraedd Tŷ Hywel**
Pan gyrhaeddwch Dŷ Hywel, ewch i'r dderbynfa. Rhaid i bob ymwelydd fynd drwy'r sganiwr diogelwch a rhaid i bob eiddo personol fynd drwy'r sganiwr pelydr-x

Caiff unrhyw eitemau gwaharddedig eu cymryd ymaith gan y staff diogelwch. Byddwch yn cael yr eitemau yn ôl ar ddiwedd yr ymweliad.

Fe gaiff aelod o'r Tîm Addysg wybod eich bod wedi cyrraedd. Bydd y Swyddog yn cwrdd â'r grŵp yn Neuadd Tŷ Hywel.

Caiff Neuadd Tŷ Hywel ei defnyddio gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi bod drwy'r system ddiogelwch cyn cael mynediad i'r adeilad. Mae'r staff diogelwch yn cadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd yma, ond dylai disgyblion fod yn ymwybodol y gallent ddod i gysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd yn yr ardal hon.

## Y Tîm Addysg

Mae aelodau'r Tîm Addysg yn athrawon cymwysedig ac maent wedi cael yr hyfforddiant priodol yn unol â gweithdrefnau hyfforddi Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae aelodau'r Tîm yn gwisgo bathodyn adnabod sy'n dangos yn glir eu bod yn aelod o staff.

Bydd Swyddog Addysg yn aros gyda'r grŵp yn ystod rhan fwyaf yr ymweliad â'r safle a bydd yn rhoi cyfarwyddiadau ar ymddygiad diogel.

Cyfrifoldeb Arweinydd y Daith yw sicrhau bod aelodau'r grŵp i gyd yn aros gyda'i gilydd. Bydd eich Swyddog Addysg yn sicrhau bod y safle ymweld yn ddiogel ar gyfer eich taith.

Eich staff chi ac unrhyw oedolion eraill sy'n gyfrifol am ymddygiad y disgyblion. Bydd eich swyddog addysg yn cynnal archwiliad o'r safle cyn i'ch grŵp gyrraedd ac yn sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd os ydynt yn canfod unrhyw beryglon posibl.



## Yn ystod eich ymweliad

Bydd eich Swyddog Addysg yn rhoi cyfarwyddiadau sy'n addas i oedran eich grŵp gan gynnwys gwybodaeth am weithdrefnau tân, ymddygiad ar y safle ac unrhyw beryglon posibl a all godi yn ystod yr ymweliad. Caiff yr ymddygiad a ddisgwylir yn ystod y daith ei amlinellu cyn cychwyn. Ceir tair elfen i'r Ymweliad Addysgol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru:

**01.** Bydd yr ymweliad yn dechrau gyda dadl yn SiambrHywel - siambr drafod wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer pobl ifanc.

**02.** O Siambr Hywel, bydd y disgyblion yn symud i'n hystafell waith i wneud gwaith ymchwil a fydd yn rhoi mwy o ddealltwriaeth iddynt o'r ffordd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio.

**03.** O'r Ystafelloedd Addysg yn Nhŷ Hywel, caiff y grŵp ei arwain i lawr Pierhead Street i'r Senedd. Yn y Senedd, caiff y grŵp gyfle i weld y Siambr a'r adeilad gyda'r posibilrwydd o gwrdd â'u Haelodau Cynulliad.

## Gadael yr Adeilad mewn Argyfwng

Mae grwpiau addysgol wedi cael eu cynnwys yn y gweithdrefnau gadael adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn achos o dân. Bydd larymau tân yn canu'n ddi-dor pan weithredir y larwm o unrhyw le yn yr adeilad. Bydd y Swyddog Addysg ac aelodau o staff (yn cynnwys y Wardeiniaid Tân) yn sicrhau bod y grŵp yn gadael yr adeilad ar unwaith i lawr y grisiau agosaf neu drwy'r allanfa agosaf. Dylai'r grŵp fynd yn syth i'r Man Ymgynnull priodol. Mae'r gweithdrefnau gadael mewn achos o dân yn cynnwys trefniadau ar gyfer pobl anabl (Gweler yr Asesiad Risg).

## Cyfleusterau Cymorth Cyntaf

Mae ystafelloedd a chyfarpar cymorth cyntaf ar gael os bydd eu hangen.

Dylai'r Swyddog Addysg neu aelod o'r Tîm Diogelwch gael gwybod am unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain sy'n digwydd i aelod o'r grŵp addysgol yn ystod yr ymweliad â'r safle.

Dylai Arweinwyr Grwpiau sicrhau bod ffurflen ddamweiniau neu ddigwyddiad yn cael ei llenwi. Bydd hon yn cael ei hanfon at y Tîm Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd.






# Ffurflen Asesu Risg Cyffredinol– Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| | | |
|---|---|---|
| **Tasg / adeilad:**<br>Ymweliadau addysgol | **Aseswyd gan:**<br>Jürgen Dreyer/ Mari Gooberman | **Dyddiad yr asesiad:**<br>11 Mawrth 2012 |
| **Lleoliad:**<br>Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **Swydd yr aseswr:**<br>Cynghorydd Iechyd a Diogelwch / Pennaeth y Gwasanaeth Addysg | **Dyddiad yr arolwg:**<br>11 Mawrth 2014 |

**Sylwadau:** Mae'r Cynulliad yn cynnig hyd at 3 ymweliad addysgol y diwrnod ar amseroedd a drefnwyd ymlaen llaw. Mae ymweliadau fel arfer yn para rhwng 1 awr 30 munud a 2 awr ac maent ar gael ar gyfer CA2, CA3, CA4, 16+, colegau, myfyrwyr gwleidyddiaeth a grwpiau Bagloriaeth Cymru. Mae'r Cynulliad yn caniatáu hyd at 48 o blant / myfyrwyr mewn grŵp. Bydd pob ymweliad addysgol yn dechrau yn Nhŷ Hywel a gall gynnwys gweithgareddau yn Nhŷ Hywel ac yn y Senedd. Bydd un o Swyddogion Addysg y Cynulliad yn cydgysylltu ac yn arwain pob ymweliad grŵp. Fodd bynnag, arweinydd y grŵp a'r athrawon / staff / oedolion cysylltiedig sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y grŵp. O dan gyfraith Iechyd a Diogelwch, yn gyffredinol, ystyrir bod cyflogeion (athrawon) yn 'y gwaith' pan fyddant yn goruchwylio plant ar ymweliad addysgol.
[Y ddeddfwriaeth berthnasol: Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999; Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005; Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989; Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gwaith) 1992]

| Maes / gweithred / deunyddiau, ac ati | Peryglon | Y bobl a allai fod mewn perygl | Y mesurau rheoli sydd ar waith | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Graddfa'r Risg | Y mesurau rheoli sydd eu hangen | Y camau i'w cymryd, gan bwy a phryd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymweliadau addysgol ar gyfer grwpiau i'r Cynulliad. | Tân. | Yr holl ymwelwyr gan gynnwys yr athrawon a'r plant ysgol, a staff y Cynulliad. | • Bydd y gweithdrefnau tân mewn argyfwng yn cael eu hegluro gan y Swyddog Addysg i bob grŵp ar ôl iddynt gyrraedd. Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn addas ar gyfer oedran y grŵp.<br>• Wardeniaid Tân y Cynulliad i helpu os oes tân.<br>• Y nifer fwyaf o blant a ganiateir mewn grŵp: 48 o blant / myfyrwyr | 1 | 5 | Isel iawn | • Arweinydd y grŵp a'r staff / oedolion sy'n ymweld i helpu os oes tân.<br>• Arweinydd y grŵp sy'n ymweld i baratoi cynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng ar gyfer unrhyw aelod / aelodau o'r grŵp sydd ag anableddau. (Arweinydd y grŵp i gysylltu â'r Swyddog Addysg / Cynghorydd Iechyd a Diogelwch yn y Cynulliad i gael canllawiau a chymorth) | Arweinydd y daith cyn ac yn ystod yr ymweliad |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plentyn / myfyriwr yn cael ei wahanu o’r grŵp. | Plant / myfyrwyr a staff sy’n ymweld. | • Bydd y Swyddog Addysg yn hebrwng y grŵp drwy gydol yr ymweliad.<br>• Mae aelodau’r Tîm Addysg, gan gynnwys y Swyddog Addysg, yn gwisgo bathodyn adnabod sy’n dangos yn glir eu bod yn aelod o staff. Bydd y grwpiau sy’n ymweld yn cael eu hysbysu ynglŷn â’r dull adnabod hwn.<br>• Rhoddir cortyn lliw iddynt sy’n benodol i’w grŵp hwy.<br>• Dylai unrhyw blentyn sydd ar goll fynd i’r swyddfa ddiogelwch neu’r dderbynfa h.y. aelod o staff mewn gwisg unffurf. | 1 | 3 | Isel iawn | • Rhaid i arweinydd y grŵp sy’n ymweld sicrhau bod lefel ddigonol o oruchwyliaeth yn cael ei darparu drwy gydol yr ymweliad.<br>• Dylai arweinydd y grŵp ddweud wrth blant am beidio â chrwydro.<br>• Gan ddibynnu ar oed y plant, gallant fynd i’r toiledau ar eu pen eu hunain neu gydag athro. Dylai arweinydd y grŵp sy’n ymweld wneud y penderfyniad hwnnw.<br>• Rhaid i’r athrawon sy’n ymweld hebrwng plant sy’n sâl. | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau addysgol. | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Bydd yr holl weithgareddau a gynhelir yn adeiladau'r Cynulliad yn addas i'r grŵp, ac ystyrir oed y plant, eu gallu a'u symudedd.<br>• Mae'r gweithgareddau hyn yn debygol o gynnwys gweithio mewn grwpiau bach a chyflwyno'r wybodaeth i'r grŵp cyfan ar ddiwedd y sesiwn.<br>• Bydd y cyfarpar a ddarperir yn addas ar gyfer y dasg a'r grŵp sy'n gwneud y dasg.<br>• Bydd Swyddog Addysg y Cynulliad yn goruchwylio'r grŵp yn gyson. | 1 | 2 | Isel iawn | • Arweinydd y grŵp a'r staff sy'n ymweld i helpu i oruchwylio'r plant yn ystod pob gweithgaredd.<br>• Arweinydd y grŵp a'r staff sy'n ymweld i sicrhau bod y plant yn ymddwyn yn briodol fel nad ydynt yn peryglu eu hunain neu eraill. | |
| | Swyddfeydd ac ardaloedd storio. | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Cyfyngir mynediad i'r ardaloedd hyn naill ai drwy ddulliau rheoli diogelwch neu drwy gloi drysau yn ystod ymweliadau addysgol.<br>• Rhoddir arwyddion priodol amlwg ar gyfer ardaloedd y mae mynediad cyfyngedig iddynt. | 1 | 1 | Isel iawn | • Rhaid i arweinydd y grŵp sy'n ymweld sicrhau bod digon o oruchwyliaeth drwy gydol yr ymweliad ac y dywedir wrth y plant am beidio â chrwydro. | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyswllt ag aelodau'r cyhoedd. | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Lefel uchel o ddiogelwch yn adeiladau'r Cynulliad, gan gynnwys yr heddlu.<br>• Rhaid i holl aelodau'r cyhoedd fynd drwy beiriannau diogelwch cyn dod i mewn i'r adeiladau.<br>• Nifer uchel o ddyfeisiadau CCTV drwy'r adeiladau, y tu mewn a'r tu allan. | 2 | 2 | Isel | • Arweinydd y grŵp a'r staff sy'n ymweld i sicrhau bod y plant yn ymddwyn yn briodol fel nad ydynt yn peryglu eu hunain neu eraill. | |
| | Teithio rhwng adeiladau – tywydd gwael; cysylltiad â cherbydau ac aelodau o'r cyhoedd. | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Bydd y Swyddog Addysg yn sicrhau y dewisir y ffordd fwyaf diogel ac yn cydgysylltu'r daith.<br>• Bydd y Swyddog Addysg yn rhoi cyfarwyddiadau i arweinydd y grŵp a'r grŵp ynglŷn ag unrhyw beryglon posibl. | 2 | 2 | Isel | • Arweinydd y grŵp a'r staff sy'n ymweld i helpu a sicrhau bod aelodau'r grŵp yn aros gyda'i gilydd.<br>• Arweinydd y grŵp sy'n ymweld i sicrhau y dywedir wrth y plant / myfyrwyr sut y dylent ymddwyn. | |
| | Y byrddau arddangos a ddefnyddir yn y neuadd a'r hysbysfyrddau yn y coridorau. | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Mae'r byrddau arddangos wedi cael eu gosod yn ddiogel ar y wal gan weithwyr proffesiynol.<br>• Darperir deunydd arddangos ar uchder sy'n addas i'r grwpiau a dargedwyd. | 1 | 2 | Isel iawn | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Siop y Senedd | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Mae'r cynnyrch sy'n debygol o ddenu sylw pobl ifanc ar y silffoedd isaf. | 3 | 3 | Canolig | • Gan nad yw ymweliad â'r siop yn rhan ffurfiol o'r ymweliad, bydd yn rhaid i arweinydd y grŵp a'r staff sy'n ymweld oruchwylio'r ymweliad â'r siop.<br>• Arweinydd y grŵp sy'n ymweld i sicrhau y dywedir wrth y plant / myfyrwyr sut y dylent ymddwyn.<br>• Dim ond gadael i grwpiau bach y gellir eu rheoli fynd i mewn i'r siop ar y tro fel nad yw plant yn gwthio neu'n disgyn ar arddangosfeydd. | |
| | Trydanol | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Nid oes ceblau llusgo yn y cyfleusterau addysgol a defnyddir cyfarpar addas ar gyfer socedi plygiau na ddefnyddir.<br>• Cynhelir profion offer symudol yn rheolaidd ar offer trydanol.<br>• Cynhelir gwiriadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd gan y gangen TGCh. | 1 | 4 | Isel | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pobl yn llithro / baglu neu'n disgyn. | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Cynhelir archwiliadau diogelwch yn rheolaidd.<br>• Caiff unrhyw beth a gaiff ei dywallt ei lanhau cyn gynted â phosibl<br>• Rhoi arwyddion priodol lle bo hynny'n angenrheidiol.<br>• Y Swyddog Addysg i gynnal archwiliad cyn i'r grŵp gyrraedd.<br>• Swyddogion Cymorth Cyntaf, Ystafelloedd Cymorth Cyntaf a Blychau Cymorth Cyntaf ar gael. | 2 | 3 | Isel | • Rhaid hysbysu Cynghorydd Iechyd a Diogelwch y Cynulliad ynglŷn ag unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau fu bron â digwydd drwy lenwi'r ffurflenni priodol sydd i'w cael gan y staff Diogelwch. | |
| | Disgyn o uchder | Plant / myfyrwyr a staff sy'n ymweld. | • Bydd y Swyddog Addysg yn hysbysu'r grŵp ynghylch y waliau isel sydd y tu allan i flaen y Senedd ac yn cynghori pawb i ddefnyddio'r grisiau / rampiau lle mae canllawiau wedi'u gosod. | | | | • Arweinydd y grŵp i sicrhau bod digon o oruchwyliaeth drwy gydol yr ymweliad. | |

| | Canlyniad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Ansylweddol 01 | Bach 02 | Canolig 03 | Mawr 04 | Difrifol 05 |
| Rrin 01 | Isel Iawn (01) | Isel Iawn (02) | Isel Iawn (03) | Isel (04) | Isel (05) |
| Anhebygol 02 | Isel Iawn (2) | Isel (4) | Isel (6) | Canolig (8) | Canolig (10) |
| Posibl 03 | Isel Iawn (3) | Isel (6) | Canolig (9) | Canolig (12) | Uchel (15) |
| Tebygol 04 | Isel (4) | Canolig (8) | Canolig (12) | Uchel (16) | Uchel (20) |
| Bron yn bendant 05 | Isel (5) | Canolig (10) | Uchel (15) | Uchel (20) | Uchel (25) |